



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG46435

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau ailgylchu ar gyfer busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru

Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, fel y'i diwygiwyd gan Ran 4 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Dyddiad Cyhoeddi: Ebrill 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2023 ISBN Digidol

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o'r enw 'Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau ailgylchu ar gyfer busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru'. Wrth ddarparu trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fel y cawsant eu derbyn, dylid nodi bod rhai yn cynnwys anghywirdebau yn nhermau'r cynigion polisi, sy'n deillio o gamddealltwriaeth o'r rheoliadau neu'r ddeddfwriaeth sy'n sylfaen iddynt. Gellir gweld manylion y cynigion yma: [Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau ailgylchu ar gyfer busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru](#) a bydd yr wybodaeth a dderbyniwyd yn cael ei defnyddio i oleuo cyfathrebu ac arweiniad ar y diwygiadau yn y dyfodol i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth wrth symud ymlaen.

Gweithredu Angenrheidiol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Mwy o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd gwahanol o'r ddogfen hon ar gael.

Manylion cysylltu

I gael mwy o wybodaeth:

Yr Is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: EffeithlonrwyddAdnoddauAcEconomiGylchol@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://www.llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-gorfodi-rheoliadau-ailgylchu-busnesau-y-sector-cyhoeddus-ar-trydydd-sector-yng>

Cynnwys

Cynnwys.....	3
1. Cyflwyniad	4
2. Yr hyn y gwnaethom ei ofyn i chi	5
3. Yr hyn a ddwedoch chi wrthym ni	8
4. Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud nesaf.....	21
Atodiad 1: Rhestr o ymatebwyr	22

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o'r enw 'Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau ailgylchu ar gyfer busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru'. Wrth ddarparu trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fel y cawsant eu derbyn, Dylid nodi bod rhai yn cynnwys anghywirdebau yn nhermau'r cynigion polisi, sy'n deillio o gamddealltwriaeth o'r rheoliadau neu'r ddeddfwriaeth sy'n sylfaen iddynt. Gellir gweld manylion y cynigion yma: <https://www.llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-gorfodi-rheoliadau-ailgylchu-ar-gyfer-busnesau-y-sector-cyhoeddus-ar-trydydd-html>, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru a bydd yr wybodaeth a dderbyniwyd yn cael ei defnyddio i oleuo cyfathrebu ac arweiniad ar y diwygiadau yn y dyfodol i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth wrth symud ymlaen.

1.1 Cefndir

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 12 wythnos rhwng 23 Tachwedd 2022 a 15 Chwefror 2023. Mae'n nodi dulliau gorfodi i annog cydymffurfiaeth â rheoliadau arfaethedig a fydd yn cynyddu ansawdd a maint yr ailgylchu o safleoedd annomestig a lleihau'r swm o ddeunyddiau ailgylchadwy a gaiff eu llosgi neu eu rhoi mewn safleoedd tirlenwi.

2. Yr hyn y gwnaethom ei ofyn i chi

2.1 Yr hyn sy'n cael ei gynnig

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd y rhan fwyaf o feddianwyr eiddo annomestig, casglwyr gwastraff, trinwyr a phroseswyr, a gweithredwyr cyfleusterau llosgi, cyd-llosgi a thirlenwi, yn ymdrechu i gydymffurfio â'r gofynion newydd. Fodd bynnag, mae'r rheini sy'n diystyru'r gyfraith yn tanseilio'r busnesau hynny sy'n parchu'r gyfraith a gallant gael mantais annheg dros y rheini sy'n cydymffurfio.

Prif nodau'r cynigion gorfodi yw sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â'r gyfraith a sicrhau bod y canlyniadau a geisir drwy weithredu'r rheoliadau yn cael eu gwireddu'n llawn.

Ochr yn ochr â chanllawiau a gwybodaeth i'r rheini yr effeithir arnynt, bydd trefn orfodi yn cael ei chyflwyno. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fydd yn rheoleiddio'r gofynion ac eithrio'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd. Wrth drafod cyfleusterau llosgi gwastraff bach, yr Awdurdod Lleol sydd yn gyfrifol am yr ardal y mae'r cyfleuster perthnasol wedi'i leoli ynddi fydd y rheoleiddiwr. Bydd Awdurdodau Lleol hefyd yn rheoleiddio'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffos o eiddo annomestig.

Os yw'r rheoleiddiwr yn fodlon y tu hwnt i amheuaeth resymol bod trosedd wedi'i chyflawni, y cynnig yw y bydd y rheoleiddiwr, o dan y rheoliadau, yn gallu gosod cosb ariannol benodedig (FMP). Mae'n debygol mai FMP fydd fwyaf priodol ar gyfer mân droseddau lle mae cyngor neu arweiniad blaenorol wedi methu. Byddai'r troseddau canlynol yn nhabl 1 yn denu FMP:

Tabl 1: Troseddau a FMP arfaethedig

Trosedd	FMP Arfaethedig
Mae meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru yn methu â chyflwyno gwastraff i'w casglu (boed gan awdurdod casglu gwastraff neu gan unrhyw berson arall) yn unol â'r gofynion gwahanu cymwys.	£ 300
Mae meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru yn gwaredu gwastraff bwyd, neu'n fwriadol yn achosi neu'n caniatáu i wastraff bwyd gael ei waredu, i garthffos.	£ 300
Mae person sy'n gweithredu drwy fusnes sy'n casglu gwastraff a reolir, neu'n derbyn, yn cadw, yn trin neu'n cludo gwastraff a reolir, o eiddo annomestig yn methu â gwneud hynny yn unol â'r gofynion gwahanu cymwys.	£ 500
Mae gweithredwyr cyfleusterau llosgi a chyd-llosgi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau a bennir sydd i'w casglu ar wahân yn eu cyfleusterau.	£ 500
Mae gweithredwyr cyfleusterau tirlenwi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau a bennir sydd i'w casglu ar wahân a/neu unrhyw bren yn eu cyfleusterau.	£ 500

Pan fo rheoleiddiwr yn bwriadu gosod FMP ar berson, rhaid i'r rheoleiddiwr gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad o'r hyn a gynigir: hysbysiad o fwriad. Cynigir bod y gosb yn cael ei gollwng os yw person sy'n cael hysbysiad o fwriad yn talu 50% o swm y gosb o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y derbyniwyd yr hysbysiad. Os nad yw'r person sydd wedi cael hysbysiad o fwriad yn cyflawni ei rwymedigaeth o fewn 28 diwrnod, caiff y rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad terfynol sy'n gosod FMP.

Bydd gan y rheoleiddwyr hefyd yr opsiwn i osod cosb ariannol amrywiadwy (VMP). Cosbau ariannol yw'r rhain y gellir eu gosod ar gyfer troseddau mwy difrifol. Bydd lefel y gosb ariannol yn cael ei phennu gan y rheoleiddiwr, gan adlewyrchu amgylchiadau'r trosedd.

Os yw'r rheoleiddiwr yn credu'n rhesymol bod un o'r troseddau yn nhabl 2 wedi'i chyflawni, cynigir y bydd gan y rheoleiddiwr opsiwn i osod hysbysiad stop.

Tabl 2: Tramgwyddau Hysbysiadau Stop

Tramgwydd
Mae meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru yn gwaredu gwastraff bwyd, neu'n fwriadol yn achosi neu'n caniatáu i wastraff bwyd gael ei waredu, i garthffos.
Mae gweithredwyr cyfleusterau llosgi a chyd-losgi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau a bennir sydd i'w casglu ar wahân yn eu cyfleusterau.
Mae gweithredwyr cyfleusterau tirlenwi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau a bennir sydd i'w casglu ar wahân a/neu unrhyw bren yn eu cyfleusterau.

Mae hysbysiad stop yn ofyniad i berson beidio â chyflawni gweithgaredd a ddisgrifir yn yr hysbysiad hyd nes y bydd wedi cymryd camau i ddod yn ôl i gydymffurfio. Caniateir rhoi hysbysiad stop gydag unrhyw sancsiwn sifil arall ac eithrio FMP.

Pwrpas y drefn sancsiynau sifil a amlinellir uchod yw annog cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Os bydd person yn methu â chydymffurfio â hysbysiad terfynol neu hysbysiad stop, gellir dwyn achos troseddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y pecyn gorfodi hwn a lefel y cosbau ariannol sefydlog yn ddigon i atal hyn ac mae'n briodol ac yn rhesymol ar gyfer y rheoliadau hyn. Bydd y drefn orfodi, gan gynnwys lefel y cosbau, yn cael ei hadolygu'n gyson.

2.2 Y cwestiynau a ofynnwyd gennym

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

- C1 A yw'r FMP arfaethedig o £300 ar gyfer y troseddau yn rhesi 1-2 yn nhabl 1 uchod yn gymesur? Os na, pam? Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg / cymaradwy eraill os yw'n briodol.
- C2 A yw'r FMP arfaethedig o £500 ar gyfer y troseddau yn rhesi 3-5 yn nhabl 1 uchod yn gymesur? Os na, pam? Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg / cymaradwy eraill os yw'n briodol.
- C3 A yw'r cynnig y gellir rhyddhau atebolrwydd am y gosb drwy dalu 50% o'r gosb o fewn 28 diwrnod yn rhesymol? Os na, esboniwch eich sail resymegol, ac os yw'n

briodol, awgrymwch ddull arall. Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg / cymaradwy eraill os yw'n briodol.

- C4 A yw'r cynigion ar gyfer y gostyngiad taliad cynnar a'r cosbau taliad hwyr yn rhesymol? Os na, esboniwch eich sail resymegol ac os yw'n briodol, awgrymwch ddull arall. Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg / cymaradwy eraill os yw'n briodol.
- C5 A yw'r cynigion ar gyfer y gostyngiad taliad cynnar a'r cosbau taliad hwyr yn rhesymol? Os na, esboniwch eich sail resymegol ac os yw'n briodol, awgrymwch ddull arall. Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg / cymaradwy eraill os yw'n briodol.
- C6 A ydych yn credu bod y cynnig i ganiatáu i reoleiddwyr osod hysbysiadau stop ar gyfer y tramgwyddau a amlinellir yn nhabl 2 yn briodol? Er enghraifft, yn eich barn chi, a fyddai sefyllfaoedd lle byddai toriadau o'r fath yn cyrraedd y trothwy o beri (neu'n debygol o beri) risg sylweddol o achosi niwed i'r amgylchedd? Os na, pam?
- C7 A ydych yn cytuno bod y drefn orfodi gyffredinol hon a'r dull gweithredu yn rhesymol ac yn gymesur? Os na, pam?

2.3 Yr ymatebwyr

Cafwyd cyfanswm o 39 ymateb gan 33 o sefydliadau gwahanol.

Cyflwynodd rhai sefydliadau fwy nag un ymateb, neu cafwyd ymatebion ar wahân gan wahanol ganghennau o'r un sefydliad. Nid oedd rhai cyflwyniadau'n cynnwys enw sefydliad neu fe'u cyflwynwyd yn bersonol. Ceir rhestr o'r rhai a ymatebodd (ac a gytunodd i rannu manylion) yn Atodiad 1 a cheir crynodeb ohonynt yn ôl y math o sefydliad yn Nhabl 3.

Tabl 3: Nifer yr ymatebion yn ôl math o sefydliad

Math o Sefydliad	Nifer yr Ymatebion	Canran Ymateb (%)
Busnes	2	5.3%
Sefydliad trydydd sector	4	10.5%
Sefydliad sector cyhoeddus	6	15.8%
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	9	23.7%
Cwmni rheoli gwastraff	6	15.8%
Dim un o'r uchod	11	28.9%
CYFANSWM	38	100.0%
Heb ateb	1	

O'r sefydliadau a atebodd "Dim un o'r uchod" roedd tri yn Gymdeithasau Masnach, roedd pedwar yn sefydliadau a oedd yn cynrychioli busnes/diwydiant neu randdeiliaid eraill ac roedd un yn gorff proffesiynol.

3. Yr hyn a ddwedoch chi wrthym ni

3.1 Argraffiadau cyffredinol

Roedd agwedd gadarnhaol yn gyffredinol at yr egwyddorion y mae'r cynigion yn ceisio eu cyflawni, er enghraifft, y bydd y cynigion i fusnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wahanu eu ffrydiau gwastraff gwahanol yn galw am orfodaeth.

3.1 Trosolwg o'r ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad.

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion ac mae'n nodi nifer yr ymatebion "Ie", "Na", ac "Arall", yr olaf yw lle mae'r ymatebion yn fwy cymhleth ac nid yn "ie" neu "na" amlwg. Mewn rhai achosion, roedd yr atebion a roddwyd i'r cwestiynau mewn bloc o destun ac nid oedd pob un yn cynnwys 'ie' neu 'na' yn eu hatebion, ac yn yr achosion hynny mae un o'r tri chategori wedi'i awgrymu yn yr ymateb a roddwyd.

Cynhaliwyd dadansoddiad ystadegol fel rhan o'r asesiad o'r ymatebion i bennu'r gyfran a ymatebodd i bob cwestiwn yn ogystal â nodi lle'r oedd yr ymatebion ar lefel sefydliad yn wahanol i'r ymateb gan y mwyafrif.

Mae'r prif themâu sy'n deillio o'r ymatebion wedi'u crynhoi isod.

Cwestiwn 1: A yw'r FMP arfaethedig o £300 ar gyfer y troseddau yn rhesi 1-2 yn nhabl 1 uchod yn gymesur? Os na, pam? Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg / cymaradwy eraill os yw'n briodol.

Mae Tabl 1 yn y *Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau ailgylchu busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru* yn cynnig FMP o £300 os:

- Mae meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru yn methu â chyflwyno gwastraff i'w gasglu (boed gan awdurdod casglu gwastraff neu gan unrhyw berson arall) yn unol â'r gofynion gwahanu cymwys (rhes 1).
- Mae meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru yn gwaredu gwastraff bwyd, neu'n fwriadol yn achosi neu'n caniatáu i wastraff bwyd gael ei waredu, i garthffos (rhes 2).

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 1, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad sy'n ymateb, wedi'u darparu yn nhabl 4.

Tabl 4: Nifer yr ymatebion yn ôl math o sefydliad i Gwestiwn 1: A yw'r FMP arfaethedig o £300 ar gyfer y troseddau yn rhesi 1-2 yn nhabl 1 yn gymesur?

Math	Ydy	Nac ydy	Arall	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	1	0	0	1	1
Sefydliad trydydd sector	2	2	0	4	0
Sefydliad sector cyhoeddus	2	1	1	4	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	4	4	0	8	1
Cwmni rheoli gwastraff	3	3	0	6	0
Dim o'r uchod	6	3	2	11	0
Anhysbys	1	0	0	1	0
CYFANSWM	19	13	3	35	4
Canran (%)	54.3%	37.1%	8.6%	100.0%	

Roedd dros hanner (tua 54%) yr ymatebwyr o'r farn bod y FMP arfaethedig o £300 yn gymesur ar gyfer y troseddau penodedig. Roedd y rhesymau dros ateb "Ydy" yn cynnwys bod y gosb arfaethedig yn gymesur/rhesymol. Roedd yr enghreifftiau ategol a nodwyd yn cynnwys bod y gosb yn unol â rheoliadau a chosbau'r Alban ar gyfer troseddau Dyletswydd Gofal.

Roedd gan y rhai a ymatebodd "Nac ydy" neu "Arall" (a rhai a ymatebodd "Ydy") amrywiaeth o bryderon gwahanol gan gynnwys:

- Roedd nifer o'r ymatebwyr yn bryderus ynghylch maint y gosb, sef £300. Roedd y rhan fwyaf yn poeni am y baich posibl ar fusnesau – yn enwedig busnesau bach a mudiadau trydydd sector/gwirfoddol. Roedd lleiafrif yn poeni na fyddai'r gosb efallai'n ddigon i atal cwmnïau mawr. Roedd awgrymiadau gan ymatebwyr yn cynnwys:
 - Defnyddio graddfa symudol o gosbau yn seiliedig ar faint y busnes neu faint y gwastraff; a
 - Defnyddio graddfa symudol/cynyddu cosbau ar sail nifer y troseddau.
- Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai rhybudd yn briodol ar gyfer trosedd cyntaf, o bosibl gan gynnwys rhywfaint o addysg/hyfforddiant i fusnesau i'w helpu i gydymffurfio. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai angen ymgyrch addysg ac ymwybyddiaeth genedlaethol ar gyfer busnesau.
- Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am fod yn gyfrifol am ddeunydd a gynhyrchir/gwaredir gan drydydd partïon, er enghraifft defnyddwyr gwasanaeth, contractwyr, ymwelwyr neu bobl eraill (er enghraifft defnyddio biniau hygyrch/heb eu diogelu heb awdurdod).

Roedd pryderon eraill yn cynnwys:

- Ai FMP yw'r offeryn mwyaf priodol ynteu a ddylid defnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig yn lle hynny; a'r
- Baich posibl ar reoleiddwyr/arolygwyr.

Cwestiwn 2: A yw'r FMP arfaethedig o £500 ar gyfer y troseddau yn rhesi 3-5 yn nhabl 1 uchod yn gymesur? Os na, pam? Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg / cymaradwy eraill os yw'n briodol.

Mae Tabl 1 yn y *Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau ailgylchu busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru* yn cynnig FMP o £500 os:

- Mae person sy'n gweithredu drwy fusnes sy'n casglu gwastraff a reolir, neu sy'n derbyn, yn cadw, yn trin neu'n cludo gwastraff a reolir, o eiddo annomestig yn methu â gwneud hynny yn unol â'r gofynion gwahanu cymwys (rhes 3).
- Mae gweithredwyr cyfleusterau llosgi a chyd-llosgi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau a bennir sydd i'w casglu ar wahân yn eu cyfleusterau (rhes 4).
- Mae gweithredwyr cyfleusterau tirlenwi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau a bennir sydd i'w casglu ar wahân a/neu unrhyw bren yn eu cyfleusterau (rhes 5).

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 2, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad sy'n ymateb, wedi'u darparu yn Nhabl 5.

Tabl 5: *Nifer yr ymatebion yn ôl math o sefydliad i Gwestiwn 2: A yw'r FMP arfaethedig o £500 ar gyfer y troseddau yn rhesi 3-5 yn nhabl 1 yn gymesur?*

Math	Ydy	Nac ydy	Arall	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	1	0	0	1	1
Sefydliad trydydd sector	1	2	0	3	1
Sefydliad sector cyhoeddus	3	1	0	4	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	2	5	1	8	1
Cwmni rheoli gwastraff	3	3	0	6	0
Dim o'r uchod	8	1	1	10	1
Anhysbys	1	0	0	1	0
CYFANSWM	19	12	2	33	6
Canran (%)	57.6%	36.4%	6.1%	100.0%	

Roedd y mwyafrif (tua 58%) o'r ymatebwyr o'r farn bod y FMP arfaethedig o £500 yn gymesur ar gyfer y troseddau penodol. Roedd y rhesymau dros ateb "Ydy" yn cynnwys bod y gosb arfaethedig yn gymesur/rhesymol. Dywedodd un ymatebydd y dylai casglwyr gwastraff a gweithredwyr cyfleusterau llosgi a thirlenwi wynebu FMP

uwch oherwydd y potensial am effaith amgylcheddol fwy (andwyol) o'i gymharu â meddianwyr eiddo annomestig.

Roedd gan y rhai a ymatebodd "Nac ydy" neu "Arall" (a rhai a ymatebodd "Ydy") amrywiaeth o bryderon gwahanol gan gynnwys:

- Roedd nifer o'r ymatebwyr yn bryderus ynghylch maint y gosb, sef £500. Fodd bynnag, yn wahanol i Gwestiwn 1, roedd y mwyafrif yn poeni efallai na fyddai'r gosb yn ddigon i rwystro cwmnïau mawr. Roedd lleiafrif yn poeni bod maint y gosb yn rhy sylweddol. Roedd awgrymiadau gan ymatebwyr yn cynnwys:
 - Defnyddio graddfa symudol o gosbau yn seiliedig ar faint y busnes neu faint y gwastraff; a
 - Defnyddio graddfa symudol/cynyddu cosbau ar sail nifer y troseddau.
- Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai rhybudd yn briodol ar gyfer trosedd gyntaf, o bosibl gan gynnwys rhywfaint o addysg/hyfforddiant i fusnesau i'w helpu i gydymffurfio.
- Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y byddai busnesau'n atebol am ddeunydd nad ydynt yn ei reoli, er enghraifft diffyg cydymffurfio gan feddianwyr eiddo sy'n effeithio ar gasglwyr gwastraff neu weithredwyr llosgi a thirlenwi.
- Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o gael eu cosbi ddwywaith a bod yn destun camau gorfodi lluosog ar gyfer yr un trosedd. Roedd yr enghraifft a ddarparwyd yn nodi y gallai gweithredwyr cyfleusterau llosgi a thirlenwi gael eu cosbi ddwywaith am un trosedd, er enghraifft gyda FMP a thrwy gynyddu Ffioedd Cynhaliaeth Trwydded blynyddol ar gyfer eu trwydded gwastraff.
- Roedd pryderon eraill yn cynnwys:
 - Ai FMP oedd yr offeryn mwyaf priodol ac a ddylid defnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig yn lle hynny; a'r
 - Baich posibl ar reoleiddwyr/arolygwyr.

Cwestiwn 3: A yw'r cynnig y gellir rhyddhau atebolrwydd am y gosb drwy dalu 50% o'r gosb o fewn 28 diwrnod yn rhesymol? Os na, esboniwch eich sail resymegol, ac os yw'n briodol, awgrymwch ddull arall. Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg / cymaradwy eraill os yw'n briodol.

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 3, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad sy'n ymateb, wedi'u darparu yn nhabl 6.

Tabl 6: Nifer yr ymatebion yn ôl math o sefydliad i Gwestiwn 3: A yw'r cynnig y gellir rhyddhau atebolrwydd am y gosb drwy dalu 50% o'r gosb o fewn 28 diwrnod yn rhesymol?

Math	Ydy	Nac ydy	Arall	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	1	0	0	1	1
Sefydliad trydydd sector	4	0	0	4	0
Sefydliad sector cyhoeddus	3	1	0	4	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	4	5	0	9	0
Cwmni rheoli gwastraff	3	3	0	6	0
Dim o'r uchod	8	1	1	10	1
Anhysbys	1	0	0	1	0
CYFANSWM	24	10	1	35	4
Canran (%)	68.6%	28.6%	2.9%	100.0%	

Roedd tua dwy ran o dair (tua 69%) o'r ymatebwyr o'r farn bod y cynnig y gellir rhyddhau atebolrwydd am y gosb drwy dalu 50% o'r gosb o fewn 28 diwrnod yn rhesymol. Roedd y rhesymau dros ateb "Ydy" yn cynnwys:

- Bod y cyfnod amser arfaethedig (28 diwrnod) a lefel y disgownt (50%) yn rhesymol.
- Credai un ymatebydd y byddai disgownt am dalu'n gynnar yn helpu busnesau bach.

Roedd gan y rhai a ymatebodd "Nac ydy" neu "Arall" (a rhai a ymatebodd "Ydy") amrywiaeth o bryderon gwahanol gan gynnwys:

- Roedd nifer o ymatebwyr yn poeni y gallai disgownt leihau effaith ataliol y FMP, yn enwedig ar gyfer busnesau/sefydliadau mwy.
- Nid oedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r disgownt fod ar gael i droseddwyd mynych.
- Roedd un ymatebydd o'r farn na ddylai fod disgownt ar gael i Awdurdodau Lleol, casglwyr gwastraff neu weithredwyr llosgi neu dirlenwi.
- Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod cyfradd ddisgownt is yn fwy priodol, yn enwedig pe bai'n cael ei chyfuno â graddfa symudol ar gyfer y cosbau.
- Credai un ymatebydd y dylai'r cyfnod o 28 diwrnod ddechrau ar ôl i unrhyw her gan sefydliad yn erbyn y FMP ddod i ben.
- Roedd pryderon eraill yn cynnwys:
 - A oedd 14 diwrnod yn fwy priodol i gyd-fynd â'r cyfnod a ddefnyddiwyd ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodedig;
 - A ddylai FMP a'r gyfradd ddisgownt gyd-fynd â'r rheini a ddefnyddir ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodedig; a

- Baich posibl ar reoleiddwyr/arolygwyr.

Cwestiwn 4: A yw'r cynigion ar gyfer y gostyngiad taliad cynnar a'r cosbau taliad hwyr yn rhesymol? Os na, esboniwch eich sail resymegol ac os yw'n briodol, awgrymwch ddull arall. Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg / cymaradwy eraill os yw'n briodol.

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 4, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad sy'n ymateb, wedi'u darparu yn nhabl 7.

Tabl 7: Nifer yr ymatebion yn ôl math o sefydliad i Gwestiwn 4: A yw'r cynigion ar gyfer y gostyngiad talu'n gynnar a'r cosbau taliad hwyr yn rhesymol?

Math	Ydy	Nac ydy	Arall	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	1	0	0	1	1
Sefydliad trydydd sector	2	0	0	2	2
Sefydliad sector cyhoeddus	2	1	1	4	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	5	4	0	9	0
Cwmni rheoli gwastraff	3	2	1	6	0
Dim o'r uchod	8	1	1	10	1
Anhysbys	1	0	0	1	0
CYFANSWM	22	8	3	33	6
Canran (%)	66.7%	24.2%	9.1%	100.0%	

Roedd tua dwy ran o dair (tua 67%) o'r ymatebwyr o'r farn bod y cynigion ar gyfer y disgownt talu'n gynnar a chosbau am dalu'n hwyr yn rhesymol. Y prif reswm dros ateb "Ydy" oedd bod y disgownt talu cynnar arfaethedig a'r cosbau am dalu'n hwyr yn rhesymol ac yn unol â'r rheini a ddefnyddir yn yr Alban ar gyfer troseddau tebyg a'r rhai a ddefnyddir mewn systemau cosbi eraill, er enghraifft, gorfodaeth parcio. Roedd gan y rhai a ymatebodd "Nac ydy" neu "Arall" (a rhai a ymatebodd "Ydy") amrywiaeth o bryderon gwahanol gan gynnwys:

- Roedd nifer o ymatebwyr yn poeni y gallai disgownt leihau effaith ataliol y FMP, yn enwedig ar gyfer busnesau/sefydliadau mwy. O'r ymatebwyr hyn, dywedodd rhai eu bod yn cytuno â chosbau am dalu'n hwyr.
- Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn na ddylai'r disgownt fod ar gael i drosoddwyr mynych.
- Roedd un ymatebydd o'r farn na ddylai fod disgownt ar gael i Awdurdodau Lleol, casglwyr gwastraff neu weithredwyr llosgi a thirlenwi.
- Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod cyfradd ddisgownt is yn fwy priodol, yn enwedig pe bai'n cael ei chyfuno â graddfa symudol ar gyfer y cosbau.
- Credai un ymatebydd y dylai'r cyfnod o 28 diwrnod ddechrau ar ôl i unrhyw her gan sefydliad yn erbyn yr FMP ddod i ben.

- Roedd pryderon eraill yn cynnwys:
 - Ai FMP oedd yr offeryn mwyaf priodol ac a ddylid defnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig yn lle hynny.

Cwestiwn 5: A yw'r cynnig i ganiatáu i reoleiddwyr osod VMP ar gyfer y tramgwyddau a restrir yn nhabl 1 yn rhesymol? Os na, esboniwch eich sail resymegol ac os yw'n briodol, awgrymwch ddull arall. Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg / cymaradwy eraill os yw'n briodol.

Mae Tabl 1 yn y *Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau ailgylchu busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru* yn rhestru'r toramodau canlynol:

- Os bydd meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru yn methu â chyflwyno gwastraff i'w gasglu (boed gan awdurdod casglu gwastraff neu gan unrhyw berson arall) yn unol â'r gofynion didoli cymwys.
- Os bydd meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru yn gollwng gwastraff bwyd, neu'n fwriadol yn achosi neu'n caniatáu gollwng gwastraff bwyd, i'r garthffos.
- Os bydd person sy'n gweithredu drwy fusnes sy'n casglu gwastraff a reolir, neu sy'n derbyn, yn cadw, yn trin neu'n cludo gwastraff a reolir, o eiddo annomestig yn methu â gwneud hynny yn unol â'r gofynion didoli cymwys.
- Os bydd gweithredwyr cyfleusterau llosgi a chyd-losgi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau penodedig a gesglir ar wahân yn eu cyfleusterau.
- Os bydd gweithredwyr cyfleusterau tirlenwi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau penodedig a gesglir ar wahân a/neu unrhyw bren yn eu cyfleusterau.

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 5, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad sy'n ymateb, wedi'u darparu yn nhabl 8.

Tabl 8: Nifer yr ymatebion yn ôl math o sefydliad i Gwestiwn 5: A yw'r cynnig i ganiatáu i reoleiddwyr osod VMP ar gyfer y tramgwyddau a restrir yn nhabl 1 yn rhesymol?

Math	Ydy	Nac ydy	Arall	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	1	0	0	1	1
Sefydliad trydydd sector	1	1	0	2	2
Sefydliad sector cyhoeddus	2	2	0	4	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	4	5	0	9	0
Cwmni rheoli gwastraff	4	2	0	6	0
Dim o'r uchod	7	2	1	10	1
Anhysbys	1	0	0	1	0
CYFANSWM	20	12	1	33	6
Canran (%)	60.6%	36.4%	3.0%	100.0%	

Roedd y rhan fwyaf (tua 61%) o'r ymatebwyr o'r farn bod y cynigion i ganiatáu i reoleiddwyr osod VMP ar gyfer y toramodau a restrir yn nhabl 1 yn rhesymol. Y prif reswm dros ateb "Ydy" oedd y byddai'r VMP arfaethedig yn gymesur/rhesymol ar gyfer achosion difrifol o dorri amodau a/neu droseddwyr mynych.

Credai un ymatebydd hefyd y gallai VMP fod yn rhwystr effeithiol.

Roedd gan y rhai a ymatebodd "Nac ydy" neu "Arall" (a rhai a ymatebodd "Ydy") amrywiaeth o bryderon gwahanol gan gynnwys:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a ddywedodd "Nac ydy" wedi gwneud hynny ar y sail nad oedd digon o wybodaeth am VMP, megis sut y byddent yn cael eu gorfodi a faint y gallent fod. Roedd dau ymatebydd a ddywedodd "Ydy" wedi gwneud hynny ar y sail y byddai angen darparu rhagor o wybodaeth/arweiniad ar VMP.
- Roedd un ymatebydd a ddywedodd "Nac ydy" yn credu ei bod yn bosibl i reoleiddwyr gam-drin VMP er mwyn codi referniw.
- Roedd un ymatebydd o'r farn mai dim ond i fusnesau mawr, Awdurdodau Lleol, casglwyr gwastraff a gweithredwyr llosgi neu safleoedd tirlenwi y dylai VMP fod yn berthnasol, ac nid i fusnesau/sefydliadau bach.
- Roedd pryderon eraill yn cynnwys:
 - A yw defnyddio cosbau amrywiol yn briodol oherwydd gallant gyflwyno anghysondebau yn y ffordd y caiff troseddau eu cosbi; a
 - Baich posibl ar reoleiddwyr/arolygwyr. Yn benodol, nododd rhai ymatebwyr fod defnyddio hysbysiad o fwriad yn dreth ar adnoddau.

Cwestiwn 6: A ydych yn credu bod y cynnig i ganiatáu i reoleiddwyr osod hysbysiadau stop ar gyfer y tramgwyddau a amlinellir yn nhabl 2 yn briodol? Er enghraifft, yn eich barn chi, a fyddai sefyllfaoedd lle byddai toriadau o'r fath yn cyrraedd y trothwy o beri (neu'n debygol o beri) risg sylweddol o achosi niwed i'r amgylchedd? Os na, pam?

Mae Tabl 2 yn y *Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau ailgylchu busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru* yn rhestru'r toramodau canlynol:

- Os bydd meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru yn gollwng gwastraff bwyd, neu'n fwriadol yn achosi neu'n caniatáu gollwng gwastraff bwyd, i'r garthffos.
- Os bydd gweithredwyr cyfleusterau llosgi a chyd-losgi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau penodedig a gesglir ar wahân yn eu cyfleusterau.
- Os bydd gweithredwyr cyfleusterau tirlenwi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau penodedig a gesglir ar wahân a/neu unrhyw bren yn eu cyfleusterau.

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 6, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad sy'n ymateb, wedi'u darparu yn nhabl 9.

Tabl 9: Nifer yr ymatebion yn ôl math o sefydliad i Gwestiwn 6: Ydych chi'n meddwl bod y cynnig i ganiatáu i reoleiddwyr osod hysbysiadau stop ar gyfer y tramgwyddau a amlinellir yn nhabl 2 yn briodol?

Math	Ydy	Nac ydy	Arall	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	1	0	0	1	1
Sefydliad trydydd sector	2	0	0	2	2
Sefydliad sector cyhoeddus	3	0	2	5	1
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	4	2	3	9	0
Cwmni rheoli gwastraff	4	2	0	6	0
Dim o'r uchod	6	3	1	10	1
Anhysbys	0	0	1	1	0
CYFANSWM	20	7	7	34	5
Canran (%)	58.8%	20.6%	20.6%	100.0%	

Roedd y rhan fwyaf (tua 59%) o'r ymatebwyr o'r farn bod y cynigion i ganiatáu i reoleiddwyr osod hysbysiadau stop ar gyfer y toramodau a amlinellir yn nhabl 2 yn briodol. Y prif reswm dros ateb "Ydy" oedd y byddai'r defnydd arfaethedig o hysbysiadau stop yn gymesur/rhesymol ar gyfer achosion difrifol o dorri'r rheoliadau neu anwybyddu'r rheoliadau yn llwyr.

Roedd gan y rhai a ymatebodd "Nac ydy" neu "Arall" (a rhai a ymatebodd "Ydy") amrywiaeth o bryderon gwahanol gan gynnwys:

- Gofynnodd sawl ymatebydd am fwy o eglurder ynghylch beth fyddai "tor amod difrifol" neu "risg sylweddol o achosi niwed i'r amgylchedd".
- Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai rhai busnesau/sefydliadau fod yn atebol am ddeunydd nad ydynt yn ei reoli, er enghraifft diffyg cydymffurfio gan gasglwyr gwastraff sy'n effeithio ar weithredwyr llosgi a thirlenwi.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod digon o reoleiddio eisoes ar gyfer torri amodau a fyddai'n cyrraedd y trothwy o beri (neu'n debygol o beri) risg sylweddol o achosi niwed i'r amgylchedd. Mae'r enghreifftiau a nodwyd yn cynnwys Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a'r drefn caniatáu gwastraff.
- Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am ganlyniadau anfwriadol hysbysiad stop ar reoleiddwyr/arolygwyr a thrydydd partion.
 - Un enghraifft a ddarparwyd oedd hysbysiad stop ar gyfer gwastraff bwyd i garthffosydd sy'n gofyn am ymdrech ychwanegol gan reoleiddwyr/arolygwyr i fonitro'r gweithredu ac i archwilio gweithdrefnau newydd ar gyfer trin bwyd a rheoli gwastraff mewn safleoedd annomestig.
 - Enghraifft arall oedd sut byddai hysbysiad stop ar gyfer gweithredwr llosgi/tirlenwi yn cael effaith ganlyniadol ar orsafoedd trosglwyddo gwastraff, casglwyr gwastraff a'u cwsmeriaid yn y pen draw pe na ellid canfod trefniadau eraill ar gyfer rheoli gwastraff gweddilliol.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno bod y drefn orfodi gyffredinol hon a'r dull gweithredu yn rhesymol ac yn gymesur? Os na, pam?

Mae'r ymatebion i Gwestiwn 7, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad sy'n ymateb, wedi'u darparu yn nhabl 10.

Tabl 10: Nifer yr ymatebion yn ôl math o sefydliad i Gwestiwn 7: A ydych chi'n cytuno bod y drefn orfodi gyffredinol hon a'r dull gweithredu yn rhesymol ac yn gymesur?

Math	Ydy	Nac ydy	Arall	Cyfanswm	Heb ateb
Busnes	1	0	0	1	1
Sefydliad trydydd sector	2	1	0	3	1
Sefydliad sector cyhoeddus	2	1	1	4	2
Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol	3	5	1	9	0
Cwmni rheoli gwastraff	5	1	0	6	0
Dim o'r uchod	6	3	1	10	1
Anhysbys	1	0	0	1	0
CYFANSWM	20	11	3	34	5
Canran (%)	58.8%	32.4%	8.8%	100.0%	

Roedd y rhan fwyaf (tua 59%) o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r drefn orfodi gyffredinol a'r dull gweithredu a gynigir yn rhesymol ac yn gymesur. Y prif reswm dros ateb "Ydy" oedd:

- Bod y drefn orfodi arfaethedig yn gymesur/rhesymol ar gyfer y troseddau.
- Roedd dau ymatebydd hefyd o'r farn y byddai'r drefn orfodi arfaethedig yn rhwystr effeithiol.
- Roedd un ymatebydd yn cytuno y byddai defnyddio sancsiynau sifil ar gyfer y troseddau penodedig yn annog cydymffurfio.

Roedd gan y rhai a ymatebodd "Nac ydy" neu "Arall" (a rhai a ymatebodd "Ydy") amrywiaeth o bryderon gwahanol gan gynnwys:

- Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai rhybudd yn briodol ar gyfer trosedd gyntaf, o bosibl gan gynnwys rhywfaint o addysg/hyfforddiant i fusnesau i'w helpu i gydymffurfio. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai angen ymgyrch addysg ac ymwybyddiaeth genedlaethol ar gyfer busnesau.
- Roedd nifer o'r ymatebwyr yn bryderus ynghylch maint y cosbau FMP. Roedd awgrymiadau gan ymatebwyr yn cynnwys:
 - Defnyddio graddfa symudol o gosbau yn seiliedig ar faint y busnes neu faint y gwastraff; a
 - Defnyddio graddfa symudol/cynyddu cosbau ar sail nifer y troseddau.
- Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y byddai busnesau/sefydliadau'n atebol am ddeunydd nad ydynt yn ei reoli, er enghraifft diffyg cydymffurfio gan

feddianwyr eiddo annomestig sy'n effeithio ar gasglwyr gwastraff neu weithredwyr llosgi a thirlenwi.

- Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am fod yn gyfrifol am ddeunydd a gynhyrchir/gwaredir gan drydydd partion, er enghraifft defnyddwyr gwasanaeth, contractwyr, ymwelwyr neu bobl eraill (er enghraifft defnyddio biniau hygyrch/heb eu diogelu heb awdurdod).
- Roedd rhai ymatebwyr yn cynnig cyfnod gras neu gyfnod arweiniol lle gellid rhoi amser i fusnesau/sefydliadau gydymffurfio ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.
- Roedd pryderon eraill yn cynnwys:
 - CNC yn gweithredu fel y rheoleiddiwr ar gyfer troseddau gwastraff.
 - Ai FMP oedd yr offeryn mwyaf priodol ac a ddylid defnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig yn lle hynny.
 - Baich posibl ar reoleiddwyr/arolygwyr.
 - Angen am ganllawiau pellach ar gyfer swyddogion gorfodi CNC ac awdurdodau lleol, gan gynnwys canllawiau ar orfodi cynigion ar gyfer gorfodi gwastraff bwyd i garthffosydd.

Cwestiwn 8: Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai rheoliadau ailgylchu ar gyfer busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau ydych chi'n meddwl y byddent yn eu cael? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Cafodd yr ymgynghoriad 10 ymateb i'r cwestiwn hwn (tua chwarter yr ymatebwyr).

At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf (8 o ymatebwyr) yn teimlo na fyddai unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol.

Roedd dau ymatebydd o'r farn y gallai fod effaith gadarnhaol o ran hygyrchedd a darparu mwy o gyfleoedd i fusnesau/sefydliadau gyfathrebu yn Gymraeg.

Roedd dau ymatebydd o'r farn bod ystyried/cynnwys ieithoedd eraill (fel Pwyleg, Mandarin a Thyrceg) yn ddymunol fel bod y rheoliadau'n cael eu deall ac y cydymffurfir â hwy.

Cwestiwn 9: Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y rheoliadau arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i

bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafodd yr ymgynghoriad 10 ymateb i'r cwestiwn hwn (tua 26% o'r ymatebwyr).

At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf (7 o ymatebwyr) yn teimlo na fyddai unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol.

Credai un ymatebydd y gallai fod effaith gadarnhaol o ran hygyrchedd.

Roedd dau ymatebydd o'r farn bod ystyried/cynnwys ieithoedd eraill (fel Pwyleg, Mandarin a Thyrceg) yn ddymunol fel bod y rheoliadau'n cael eu deall ac y cydymffurfir â hwy.

Roedd un ymatebydd yn pryderu y gallai'r rheoliadau leihau'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynyddu'r galw am gasglwyr gwasanaethau preifat nad ydynt o bosibl yn gallu delio ag ymholiadau yn Gymraeg, neu oherwydd eu bod yn delio â chasglwyr/broceriaid sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.

Cwestiwn 10: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi gofyn amdanynt yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

Cafodd yr ymgynghoriad 18 ymateb i'r cwestiwn hwn (tua 26% o'r ymatebwyr).

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn poeni am y baich ar reoleiddwyr/gorfodwyr ac a fyddai digon o adnoddau/cyllideb ar gael i sicrhau bod gorfodaeth yn effeithiol. Soniodd nifer o ymatebwyr am yr angen am ganllawiau pellach ar gyfer rheoleiddwyr/gorfodwyr.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn poeni bod yr amserlenni'n rhy dynn i fusnesau a sefydliadau eu gweithredu. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid oedi cyn gweithredu'r cynnig. Cynigiodd un ymatebydd 'gyfnod gras' lle gellid rhoi amser i fusnesau/sefydliadau gydymffurfio ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am y baich ar fusnesau bach. Credai un ymatebydd y dylid eithrio mannau addoli (a siopau elusen ac adeiladau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus).

Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y byddai busnesau/sefydliadau'n atebol am ddeunydd nad ydynt yn ei reoli, er enghraifft diffyg cydymffurfio gan feddianwyr eiddo annomestig sy'n effeithio ar gasglwyr gwastraff neu weithredwyr llosgi a thirlenwi.

Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am fod yn gyfrifol am ddeunydd a gynhyrchir/gwaredir gan drydydd partïon, er enghraifft defnyddwyr gwasanaeth, contractwyr, ymwelwyr neu bobl eraill (er enghraifft defnyddio biniau hygyrch/heb eu diogelu heb awdurdod).

Ailadroddodd rhai ymatebwyr eu barn y dylid defnyddio rhybudd ar gyfer trosedd cyntaf, gan gynnwys rhywfaint o addysg/hyfforddiant i fusnesau i'w helpu i gydymffurfio. Roedd un ymatebydd yn bryderus nad oes (ar hyn o bryd) unrhyw fanylion am gynllun cyfathrebu ar gyfer ymgysylltu ag eiddo annomestig.

Awgrymodd un ymatebydd fod angen proses apelio ar gyfer busnesau/sefydliadau sy'n credu eu bod wedi cael eu cosbi'n annheg.

Roedd un ymatebydd (Bwrdd Iechyd) yn poeni am yr effaith ar sefydliadau cyhoeddus mawr a chymhleth gyda nifer o gyfleusterau/safleoedd. Y prif bryder oedd y byddai'r Prif Weithredwr yn atebol am gosbau a allai gael eu cymhwyso i wahanol gyfleusterau/swyddogaethau sefydliad a allai greu'r effeithiau canlynol:

- Gall y gosb gymryd mwy na 28 diwrnod i gyrraedd y Prif Weithredwr er mwyn delio â hi, a fyddai'n lleihau gallu'r sefydliad i gael disgownt ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y gallai gael cosb am dalu'n hwyr.
- Mae'r gosb yn annhebygol o arwain at newid ymddygiad pan fydd y Prif Weithredwr yn atebol yn hytrach na'r uned/staff/claf/ymwelydd nad oedd yn bodloni'r gofynion.
- Yn gyffredinol, roedd eu hymateb yn nodi eu bod yn credu y dylid cymhwyso'r rheoliadau i Fyrddau Iechyd (a sefydliadau cyhoeddus eraill a allai fod yn gymhleth) yn fwy trugarog, er enghraifft, drwy ddarparu cyfnod hwy i dalu'r gosb ac osgoi cosb am dalu'n hwyr.

Roedd pryderon eraill yn cynnwys:

- CNC yn gweithredu fel y rheoleiddiwr ar gyfer troseddau gwastraff a pha mor gyson y byddai'r polisïau gorfodi'n cael eu rhoi ar waith ledled Cymru.
- A allai cwmnïau dŵr fonitro (a gorfodi) rheoliadau gwastraff bwyd i garthffosydd.
- Sut y dosberthir incwm o gosbau rhwng y Llywodraeth/CNC/Awdurdodau Lleol a sut y defnyddir yr incwm.
- Y gallai CNC/Awdurdodau Lleol ddefnyddio cosbau fel adnodd codi refeniw.

4. Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud nesaf

Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth a'r Cod Ymarfer.

Mae'r ddeddfwriaeth a chod ymarfer terfynol, sy'n darparu canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r gofynion gwahanu, i gael eu cyflwyno gerbron y Senedd yn ystod hydref 2023 a'r bwriad yw i'r dyletswyddau ddod i rym ar 6 Ebrill 2024.

Byddwn yn cynnal ymgyrch genedlaethol yn y cyfryngau drwy gydol 2023 a 2024 i godi ymwybyddiaeth ymhellach o'r ddeddfwriaeth ar gyfer y rheini yr effeithir arnynt. Byddwn hefyd yn darparu adnoddau ymarferol i gefnogi safleoedd annomestig a'r sector gwastraff i baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth sy'n dod i rym, fel canllawiau arferion gorau ac astudiaethau achos ac arwyddion a phosteri y gellir eu llwytho i lawr.

Mae'r diwygiadau hyn yn rhan allweddol o sut rydym yn cyflawni ymrwymïadau ein Rhaglen Lywodraethu i adeiladu economi gryfach a gwyrddach yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol, yn ogystal â bod yn elfen hanfodol o weithredu i ddatgarboneiddio ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd a byd natur.

Atodiad 1: Rhestr o ymatebwyr

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys yr ymatebwyr hynny a ofynnodd am gadw eu hymateb yn gyfrinachol.

Nid yw ychwaith yn cynnwys yr ymatebwyr hynny nad oeddent wedi ymateb yn benodol i'r cwestiwn hwn yn eu hymateb.

Enw/Sefydliad	Math
ASH Waste Services Ltd	Cwmni rheoli gwastraff
Comisiwn Bevan	Sefydliad trydydd sector
CBS Caerffili	Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol
Cytûn (Eglwysi gyda'i gilydd yng Nghymru)	Sefydliad sy'n cynrychioli Mannau Addoli Cristnogol
Iechyd Amgylcheddol Cymru	Sefydliad sector cyhoeddus
ESA	Cymdeithas Fasnach
FareShare Cymru	Sefydliad trydydd sector
Foodservice Packaging Association	Cymdeithas Fasnach
Eglwys Unedig Gloddaeth	Sefydliad trydydd sector
Cyngor y Diwydiant Pecynnu a'r Amgylchedd	Mudiad aelodaeth ymchwil
Innovate Recycle Ltd	Cwmni rheoli gwastraff
LARAC – Pwyllgor Cynghori ar Ailgylchu Awdurdodau Lleol	Sefydliad trydydd sector
Cyngor Sir Fynwy	Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol
Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adwerthwyr Annibynnol	Sefydliad trydydd sector
Cyngor Dinas Casnewydd	Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol
Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf	Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol
Re-Gen Waste	Cwmni rheoli gwastraff
SUEZ Recycling and Recovery UK Ltd	Cwmni rheoli gwastraff
Cyngor Abertawe	Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Gwasanaeth casglu gwastraff Awdurdod Lleol
Trafnidiaeth Cymru	Sefydliad sector cyhoeddus
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Sefydliad sector cyhoeddus